**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/MDFWL/11132/24

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

28 Ionawr 2025

Dear Delyth,

Yn yr un ysbryd â chyn-Weinidog y Gymraeg ac Addysg, rwy'n ymrwymo i weithio'n agos â'r Pwyllgor wrth inni barhau i symud ymlaen â'r rhaglen o gyflwyno Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ('y Rheoliadau'). Gyda hynny mewn golwg, ysgrifennaf i hysbysu'r Pwyllgor am fy mwriad i osod y ddeddfwriaeth ddrafft ganlynol gerbron y Senedd heddiw:

- Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2025
- Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025

Bydd y Gorchymyn yn ychwanegu'r tri chorff canlynol at Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011:

- Panel Dyfarnu Cymru
- Comisiwn Ffiniau i Gymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Bydd y Rheoliadau'n gwneud Safonau'r Gymraeg yn benodol gymwys i 6 chorff cyhoeddus, ac i 1 categori o bersonau:

- Panel Dyfarnu Cymru
- Comisiwn Ffiniau i Gymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
- Awdurdod Cyllid Cymru
- Awdurdodau Iechyd Arbennig

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion polisi rhwng 24 Mehefin a 7 Hydref 2024. Bydd adroddiad cryno o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru ar yr un diwrnod ag y gosodir y Gorchymyn a'r Rheoliadau, ac rwy'n bwriadu cynnal dadl mewn Cyfarfod Llawn ar y Rheoliadau hyn ar 11 Mawrth 2025.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language